

# Llais y Llan Ebril 2016

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Mai 2016

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

## Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilfford pob Nos Fercher 01267253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30 o 1 Medi

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Ebrill 6 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Ebrill 9 Dydd Sadwrn 10.00 Bore Coffi Curad Calon Neuadd Goffa

Ebrill 9 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Henllan Cyswllt Carolyn Smethurst 01267 253308

Ebrill 12 Tuesday to 19 Tuesday Casglu Bagiau Ysgol Llanpumsaint

Ebrill 13 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 14 Nos Iau 7.30 Cór Llanpumsaint a'r Cylch Eglwys y Plwyf, Llandysul

Ebrill 18 Dydd Llun 1.30 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 19 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Ebrill 20 Dydd Mercher Clwb 60+ Taith i Camlas Abertawe

Ebrill 23 Dydd Sadwrn 2.00 Gardd Agored Bodran Felin

Ebrill 23 – Mai 1 Wythnos Arfordir Glân

Ebrill 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Goffa

Ebrill 24 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Ebrill 26 Nos Fawrth 8.00 CCB Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mai 3 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint CCB Neuadd Goffa

Mai 7 Dydd Sadwrn 10.00 Cerdded o Bodran Felin i Alltgaredig

Mai 7 Dydd Sadwrn 3.30 Diwrnod Hwyl Cae Chwarae

Mai 8 Dydd Sul Taith Maes Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mai 11 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mai 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mai 18 Dydd Mercher Clwb 60+ Taith Castell Picton

Mai 18 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mai 21 Nos Sadwrn 7.00 Cor Meibion Dyffryn Tywi Neuadd Goffa Tocynnau £6.50

Mai 22 Dydd Sul Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Goffa

Mai 29 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Mehefin 4 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Carreg Cennen

Mehefin 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mehefin 9 Nos Iau 6.30 Cwis Cerebra yng nghlwb Pêl droed Caerfyddin

Mehefin 15 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mehefin 15 Nos Fercher 8.00 CCB Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri Ymddiriedolwyr

Mehefin 21 Nos Fawrth 6.00 Cerdded i'r Pum Pyllau Llanpumsaint - cwrdd yn neuadd Goffa

Mehefin 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 25 Dydd Sadwrn 2.30 Ffet Bronwydd, Gwybodaeth i ddilyn.

Mehefin 25 Dydd Sadwrn Gantorion Sine Nomine Eglwys y Plwyf Daw manylion pellach eto

Mehefin 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Mehefin 29 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Gorffennaf 2 'This River' Neuadd Goffa Mwy o fanylion ym mis Mehefin Llais y Llan

Awst 29 Nos Lun 8.00 CCB Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo Neuadd Goffa

Medi 1 Nos Iau Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo Dechrau Tymor Neuadd Goffa

### ***Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri***

*I logi'r Neuadd Goffa, ffônïwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

## **Cymdeithas Rhieni/ Athrawon Llanpumsaint.**

Cododd y Ffair Nadolig dros £1000 i'r ysgol gan gynnwys cyfraniad oddi wrth Fanc Barclays.

Derbyniwyd cefnogaeth dda gan y gymuned a busnesau lleol, a diolch i bawb wnaeth ein cefnogi.

Cynhelir y Ffair yn flynyddol ar y Sadwrn cyna'n Rhagfyr a dylai rhywun sy'n awyddus i gynnal stondin gysylltu ag Emma Brown, Lynsey Jones neu Moishe Merry.

Diolch hefyd am y gefnogaeth i'r Noson Lasagne ar yr 8fed o Fawrth yn y Railwe wnaeth godi £180 gan gynnwys y rafffl. Diolch i Jane a'r staff am noson hwylus. Os am ychydig o lanhau mas mae'r ysgol yn casglu bagiau ar 19eg o Ebrill am naw o'r gloch y bore. Telir 40c y kilo i'r Gymdeithas ac mae hynny'n cynyddu'n gyflym. Gellwch ddefnyddio eich bagiau du arferol i ddal esgidiau, hetiau, bagiau, teganau a phob math o ddillad. Ond ni chesglir dillad gwely, llenni a thywelion a phethau felly. Gellir dod a'r bagiau atom yn yr ysgol unrhyw bryd ar ôl y 12fed. Dros gyfnod y Pasg bydd y rhieni a'r plant yn cynnal gweithgor i drwsio'r adeiladau'r ardd a'r ffens a gosod sied newydd. Os oes gennych blanhigion sbâr i'w plannu yna dewch a nhw i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn derbyn unrhyw eitemau eraill y gellir eu defnyddio fel anrhegion raffl yn y dyfodol.

Achlysur 2ail o Orffennaf - Cyngerdd gan fand. Band roc/ indies yw This River ac yn lleol o Abertawe. Mae nhw'n teithio a amgylch nifer o dafarnau a chlybiau. Buodd This River yn chwarae yn Cafe Lorenzo, Caerfyddin nol my mis Hydref a chwaraewyd nifer o ganeuon adnabyddus dros y degawdau diweddfaf. Am gip olwg o'r band cyn iddynt ddod I Lanpumsaint ym mis Gorffenaf, chwiliwch am Idge Logan (y brif canwr) ar You Tube, a gewch weld eu talent am eich hunain!! Daw gwybodaeth bellach oddi wrth y rhifyn nesaf o Lais y Llan neu Moish Merry Ysgrifenyddes y Gymdeithas 01267 253668 neu [themerrys@live.com](mailto:themerrys@live.com) <<mailto:themerrys@live.com>>.

## Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf o Lais y Pentref fe fydd y Cór yn perfformio “The Crucifixion” gan John Stainer yn Eglwys y Plwyf, Llandysul ar nos Iau Ebrill 14eg 2016 am 7.30 yr hwyr.

Yn cynorthwyo'r Cór fydd Sion Owen, Tenor a'r Parch Aled Williams Bass. Gwyn Nicholas fydd yn arwain a Lynne James fydd yr organyddes.

Bydd yr elw yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a phris y tocynnau yw £10.00. Gellir cael tocynnau oddiwrth aelodau'r Cór neu wrth y drws ar y noson. Taer erfynir am eich cefnogaeth i'r achos teilwng hyn.

## Curad Calon Llanpumsaint – Yn codi arian at Adfywiwr i Lanpumsaint.

Pleser yw cyhoeddi ein bod wedi codi bron £1,500 ac felly gellir mynd ati i gynllunio gosod yr **Adfywiwr** cynta' yn y pentre'. Ond mae'n fwriad gennym aneli at osod rhagor fel bod ardaloedd fel Nebo a Ffynnonhenri yn gallu cael Adfywiwr hefyd, felly cadwch i roi'ch llaw yn eich poced. Daeth £877 o elw o noson Swing Boyz, ac ar y 29ain o Chwefror cyfrannodd Clwb Rotari Caerfyrddin siec o £500 i Gurad Calon Llanpumsaint yng ngwesty'r Llwyn Iorwg. Rhaid diolch i Sandy Maher am hynny, ac rydym hefyd wedi derbyn nifer o gyfraniadau unigol. Os oes yna wirfoddolwr mas na rywle yn fodlon bod yn ysgrifennydd i'r fenter hon , yna cysylltwch â Mike Poston ar 253725. Rydym hefyd yn awyddus i groesawu mwy ar y pwylgor hwn er mwyn hybu'r ymgrych codi arian. Y digwyddiad nesaf yw Bore Coffi ar fore Sadwrn 9fed Ebrill am 10 o'r gloch yn Neuadd Goffa. Bydd aelod o'r Gwasanaeth Ambiwlans yn ymuno a ni am 11 y.b. i siarad am yr Adfywiwr gan egluro shwd fydd e'n gweithio a'r trefniadau hyfforddiant i bobl. Bydd hefyd yn arddangos cit **CPR (Cardio Pulminory Resuscitation)**, a chan fod gennym bellach un ar gael yn lleol pam na wnewch gymerid mantais ohono. Mae ar gael am ddim a gellwch fynd ag e' adre i ddysgu ei ddefnyddio, felly manteisiwch y cyfle i ddysgu sut i arbed bywyd mewn hanner awr. Daw DVD gydag e' i egluro'r cyfan a'r cwbl ar gael oddi wrth Mike Poston 253725 neu <mailto:llanpumsaintheart@btinternet.com>. Os ydych wedi gwirfoddoli'n barod byddwn mewn cysylltiad cyn bo hir.

Gweithgareddau eraill sydd wedi eu trefnu yw Gardd Agored yn Bodran Felin ar y 23ain o Ebrill a chyngerdd gan Gôr Bechgyn Dyffryn Tywi ac eitemau eraill ar yr 21ian o Fai. Daw manylion pellach eto, felly cadwch lygad ar dudalen Facebook Curad Calon.

## Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnal y Cyfarfod Blynnyddol am 8 o'r gloch nos Fercher 15fed o Fehefin – croeso i bawb!

Trefnir cyngerdd arall am yr Hydref ar them brenhines - daw manylion pellach mae o law.

## Casgliad Sbwriel Blynnyddol Cerddwyr Llanpumsaint

Ar ddydd Sadwrn 5ed o Fawrth daeth 16 gwirfoddolwr ynghyd o oed 12 at 78 i gasglu eu hoffer o fenig rwber a bagie sbwriel a mynd ati o ddifri. Ie! Hon oedd ymgrych flynyddol Cerddwyr Llanpumsaint ag eraill i lanhau'r ardal. Ar fore oer ond heulog buont yn casglu pob math o sbwriel mewn drysni, eitemau yn aml a daflwyd o geir gan y diofal ac anniben. Yn yr ugain bag a lenwyd gwelwyd pibau a photiau plastig, a hefyd un Fra (efallai partner y par i nicens a gasglwyd y llynedd). Diolchwn i Dan Smith o Gadwch Gymru'n Daclus a Brian Moghead o Gyngor Sir Caerfyrddin am fenthyg y cyfarpar angenrheidiol ac am gasglu'r bagiau ar y diwedd. Dagrau'r holl fenter oedd gweld sbwriel o'r newydd yn hagru'r pentref a'r heolydd ychydig oriau yn unig wedi i ni orffen. Rhyfedd o fy!

## Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru - Digwyddiadau'r dyfodol

Sul Ebrill 24ain --Sarah Howcroft - Dysgu Ffugiaeth drwy ddrymio. Os oes gennych ddrwm dewch a hi! **Dalier sylw** - bydd Tim Walters nawr yn siarad ym Mis Mai.

Sul 8fed o Fai - Diwrnod Rhyngwladol Dewinio yng Nghenarth a Rhaeadr Ffynone.

Sul 22ain o Fai -- tîm Walters yn siarad am yr Elfennol.

Mae dewinio yn grefft ddefnyddiol a diddorol gall bron unrhyw un eu dysgu. Dywed ei bod yn deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmniau yn defnyddio doniau rhai daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, cebbau trydan ayyb. Mae rhai yn gwirio am straen daearegol yn ei amgylchedd; cred bersonol yw hyn sydd heb gael ei brofi yn wyddonol hyd yn hyn.

Pam na ddewch chi ddydd Sul i brofi am eich hun? Dewch i ymuno â ni yn Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p. Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys paned o de a bisgedi. Does dim offer yn angenrheidiol, dewch a'ch hunan.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Sandy: 253547

## Gardd Agored - Bodran Felin 23ain Ebrill 2.00– 500 y.p

### At Achos yr Adfywiwr

Pan gytunais yn Chwefror i agor yr ardd at achos yr Adfywiwr gobeithiwn weld terfyn ar y glaw dibaid. Bu'n rhaid aros hyd Fawrth cyn y hynny ddigwydd er mwyn rhoi trefn arni. Dal yn wlyb mae rhai o'r borderi a bydd rhaid aros i weld os yw'r planhigion wedi boddi.

Sylwch siŵr o fod ein bod wedi cael gwledd o Lilwen Fach a Blodau Mis Mawrth (Cennin Pedr), yn ein gerddi ac ar draws y cloddiau, dros y mis diwethaf yma. Anaml eu gweld allan dai gilydd ac oherwydd y gwlybanaeth bu'r Blodau Mis Mawrth yn hynod o ffrwythlon.

Erbyn y 23ain gobeithiwn weld y Cennin Pedr diweddar a'r carnasis yn eu blodau. Daeth Clychau'r Gog i'r wyneb ac efallai byddant hwythau mas hefyd. Bu'r Gwyddau o Ganada yn cecran am safleoedd nythu dros y mis ac erbyn hyn mae o leia 5 par yn eistedd. Ta fel bo'r tywydd daw'r cywion gwŷudd erbyn Ebrill, ac ar ôl diodde'r holl dwrw cewch weld y cywion yn bwydo neu nofio ar y llyn.

Bydd te, coffi a chacennau ar gael, a phabell i gysgodi os daw glaw, a bydd llyfrau a phlanhigion hefyd ar werth. Felly dewch i fwynhau ymlwybro drwy'r coed ac o amgylch y llyn er mwyn codi arian am ail Declyn Adfywio i'r ardal. Bydd bwcedi casglu a digon o le parcio!

Carolyn a Brian Smethurst

## **Wythnos Arfordir Glân**

Bydd y pedwerydd Wythnos Arfordir Glân blynnyddol, a noddwyd gan Bwytaï Mc Donalds Cyf, yn digwydd o **23 Ebrill - 1 Mai**.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn chwilio am wirfoddolwyr ar draws Cymru i ddod at ei gilydd i helpu i ofalu am ein harfordir arobrynn.

I gymryd rhan mewn un o'n digwyddiadau glanhau neu i drefnu digwyddiad eich hun, ewch I [www.keepwalestidy.org/arfordirlan](http://www.keepwalestidy.org/arfordirlan)

## **Newyddion Eglwys y Plwyf**

### **Neges oddi wrth Ganon Aled W Williams**

Bu'n braff cwrdd â chymaint ohonoch yn dilyn y gwasanaeth croeso twymgalon yn Chwefror i'm gwraig Eirian a minnau. Edrychaf ymlaen nawr at gwrdd â phawb cyn hir. Gai elwa ar y cyfle yma i gyflwyno ychydig amdanaf fy hun.

Yn frodor o Forgannwg ces fy nghodi ym Mhontypridd cyn symud i ardal Aberystwyth o Geredigion. Astudiai yno ac wedyn yng Nghaerdydd cyn cael fy ordeinio yn 1971. Yna bûm yn gwasanaethu mewn nifer o blwyfi cyn yn derfynol dod yn gydrifol am 13 o eglwysi yn ardal Llambled, ne i mi ymddeol yn 2011. Dau o blant sydd gennym; Lois yn athrawes, a Rhun yn ffermwyr defaid, ac mae yna dri **Wyr**.

Ar gais yr Esgob gwirfoddolais i wasanaethu ardal Llanpumsaint yn rhan amser, hynny yw ar wahân i'r Suliau byddaf ar gael am ddua ddiwrnod arall. Fel arfer anelaf at Ddydd Llun Dydd Iau, ond byddaf yn hyblyg, a gallwch gysylltu â mi unrhyw amser os yw'n argyfwng. Wedi dweud hynny rydym yn byw yn Llanllwni sydd ddim ond rhyw ugain munud i ffwrdd. Byddaf yn dechrau ymweld â phobl cyn bo hir, felly os oes 'na rywun mewn ysbyty neu'n anhwylus adre rhowch wybod i mi.

Yn ôl trefn yr Esgob rhan o'm swydd fydd ymbaratoi'r ardal at y newidiadau fydd ar y gweill o gyd gysylltu nifer o eglwysi yn y dyfodol agos. Anodd yw newid yn aml iawn ond gydag agwedd gadarnhaol mae unrhyw beth yn bosib. Mi dybiaf i eich bod chi yma ar y trywydd iawn yn barod. Diolch am y croeso twymgalon a estynnwyd i mi i'ch plith eisoes. Edrychaf ymlaen at gydweithio â chi, yn ystod y misoedd sydd i ddod Bendith fo arnoch bawb/

Aled Ffon. 01559 395802 Email/Ebost [pedrbrefi@btopenworld.com](mailto:pedrbrefi@btopenworld.com)

[<mailto:pedrbrefi@btopenworld.com>](mailto:pedrbrefi@btopenworld.com)

Bydd y gwasanaethau'n parhau yn ôl y patrwm arferol ac yn weladwy y tu allan i'r eglwys.

**Blaen rybudd -** Bydd yna gyngerdd gan Gantorion Sine Nomine yn yr eglwys ar y 25ain o Fehefin. Daw manylion pellach eto.

## **Diwrnod Hwyl – Sadwrn 7fed o Fai**

Yn y gobaith fod Dŵr Cymru yn cadarnhau i'r Cae Chwarae fod ar gael dyma fydd y rhaglen am y dydd --

3.30 y.p - Ras Hwyaid - trefnir gan Gapel Nebo.

4.30 y.p. - Rasys Moch - Trefnir gan Ymddiriedolwyr y Neuadd.

5.30 y.h. -- Rhostio Mochyn - Trefnir gan y Pwyllgor Lles ac Adloniant.

Wedyn bydd y noson yng ngofal Huw Ifans gyda'i adloniant "Country & Western" - mynediad yn £2 gyda Bar ar gael.

Cyfrifoldeb Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol fydd y stondinau ar y cae. Gellir cysylltu â'r Gadeiryddes Lynsey Jones 253085. Daw posteri!

## **CEREBRA Elusen Caerfyrddin i blant a chyflwr Niwrolegol**

'Rwy'n gweithio i Elusen sy'n ymchwilio i ddulliau o osgoi a thrin y cyflwr niwrolegol, ac ymwneud hefyd ag agweddau cyfreithiol, cymdeithasol ac addysgiadol. Fel arfer 'rwy'n dod i gysylltiad wedi i'r rhiant dderbyn adroddiad diagnostig, pan fyddant yn awyddus i ddeall cyflwr y plentyn a beth ellir ei wneud. Ceisiaf egluro pethau mewn iaith syml a'u cyfeirio at lwybrau cymorth i'w plentyn yn y dyfodol, er mwyn sicrhau'r profiadau bywyd gorau posib.

Mae yna sawl cyflwr niwrolegol, dyma restr o'r rhai i ni yn eu trin --

Parlys ymenyddol -- --

Anrhefn spectwm awtistig

Anrhefn ddatblygol fel oedi datblygiad hollfydol, Dyspracsia ac anabledd dysgu.

Trawiad epilepsi a gwahanol syndromau.

ADHD a niwed ymenyddol trawmatig fel niwed i'r pen neu syndrom ysgytvol babi.

Niwed ymenyddol oherwydd gwahanol heintiau, gan gynnwys llid yr amenydd, trawiad, tyfiant yr amenydd, digwyddiad hipocsia, neu waedlyd.

Syndrom Down neu gyflwr genidol tebyg.

Annormaledd yr amenydd

Camffurfriad a dirywiad yr amenydd

Dwrben

Syndrom alcohol y ffoetws a thebyg yn deillio o wenwyno.

Ffurfiwyd yr Elusen unigryw genedlaethol yma yn 2001 i wella cyflwr plant yn diodde'n niwrolegol, drwy ymchwil, rannu gwybodaeth a chefnogaeth uniongyrchol. Mae byw gyda'r cyflwr yma yn gallu bod yn anodd i'r teulu hefyd, heblaw am y plentyn. Gyda chymorth ein gwirfoddolwyr bwriad Cerebra yw ceisio ysgafnhau'r baich.

### **Yr Ymchwil**

Mae Cerebra yn noddi ymchwil mewn chwe Adran Prifysgol fydd-eang gyda'r nodau canlynol --

- Caniatáu meddygon i ddifynio camau priodol cynnar wnâi wella cyfleoedd babanod i oroesi.
- Rhagweld y mamau hynny'n debygol o enedigaeth gynnar er mwyn osgoi'r problemau allai ddeillio o hynny.
- Creu gwell dealltwriaeth o ymddygiad a chyflwr emosiwn plant gyda chyflwr anhrelnus.
- Canolbwytio ar iechyd y plentyn, y rhieni, brodyr a chwiorydd, ac o bosib wyron hefyd.
- Ymglymu'r teuluoedd i mewn i'r ymchwil er mwyn sicrhau i'r ymchwil hynny fod yn berthnasol iddynt.
- Sicrhau fod y teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol am iechyd a gofal cymdeithasol.

### **Mae Cerebra yn cefnogi teuluoedd mewn gwahanol ffyrdd**

- Cynnig gwybodaeth a chyngor ar amrywiaeth o bynciau dros y ffon neu ar y wefan.
- Cymorth uniongyrchol drwy ein rhwydwaith o Swyddogion Rhanbarthol, i lenwi ffurflenni, llythyra, lwfans byw i'r anabl, cyfarfodydd lleol, neu weithgareddau eraill.
- Gwasanaeth cymorth cysgu
- Grantiau hyd at 80% am gyfarpar neu wasanaethau i hwyluso bywyd.
- Gwasanaeth post rhad am lyfrau llyfrgell ac offer hybu'r sensorau.
- Gwasanaeth ymgynghorol rhad ar y ffon.
- Cartref gwyliau

- Cynllun ewyllys ac ymddiriedol
- Portffolio personol i hybu'r plentyn i gwrdd â phobl o'r newydd.
- Canolfan arloesol i ddylunio cyfarpar priodol i'r teulu.
- Cylchlythyr misol yn llawn gwybodaeth, erthyglau a hanesion.
- Fforwm Rhanbarthol Cefnogol i'r teulu.

## Ariannu

Codi'r arian drwy loteri wythnosol, cymynroddai, rhodd-daliadau, chwaraeon heriol noddedig, parasiwtio, diwrnodau hwyl deuluol, boreuon coffi, bingo, rasys hwyaid, disco, karioci, gerddi agored a llu o weithgareddau arail. Os ydych am helpi i godi arian mae yna nifer o awgrymiadau ar ei gwefan <http://w3.cerebra.org.uk/fundraise/fundraising-for-cerebra/>

Noson Cwis fydd ein hymgyrch nesaf ar y 9fed o Fehafn 2016. Cynhelir hon yng nghlwb Pêl droed Caerfyrddin - sa311hz - o 6.30 o'r gloch hyd 10 y.h. Rhagor o fanylion oddi wrth

<http://w3.cerebra.org.uk/whats-on/cerebra-quiz-evening/>

Anthea Wright Swyddog Ymchwil Cerebra.

## Clwb Cerdded Llanpumsaint

Croeso i ymuno a ni ar ein teithiau dros y misoedd nesaf.

Cynhelir y daith gynta' ar y 9fed o Ebrill am 2.00 y.p., rhyw ddwy filltir a hanner o amgylch Henllan. Bydd yn gymysgeth o goedwig, golygfeydd o'r afon Teifi a chaeau gyda pheth cerdded ar heolydd. Y man cyfarfod fydd y maes parcio ar yr A484 (cyf. Map 353401) rhyw chwarter milltir tu draw i Bont Henllan.

Dychwelwn i ardal Lanpumsaint ar y 7fed o Fai i gerdded un o'r Ffosdeithiau lleol (copïau ar gael o'r Siop). Awn tua Alltgaredig a choedwig clychau'r gog, gan gychwyn am 2.00 o'r gloch o Bodran Felin. Fe gymerith tua 4 awr drwy gaeau, coedwig a heolydd bach. Yna am 11.00 y.b. ar y 7fed o Fehafn byddwn yn cychwyn o Garreg Cennen am goedwig gyntefig Tregib, gan gerdded drwy gaeau blodeuog a pheth coedwigaeth newydd. Ar ôl cwblhau 5 milltir cawn gwpaned o de yng nghaffi Carreg Cennen sydd islaw'r castell eu hun -- cyf map Landranger 159 sn669019. Toiledau yn y maes parcio. Yna ar y 21ain o Fehafn awn ar ein pererindod flynyddol i'r Pum Pwll, gan ddechrau o'r Neuadd am 6.00 o'r gloch y.h hwyr. Drwy gyniatad y tirfeddiannwr cerrwn drwy'r afon Cerwyn lan y cwm at y rhaeadr, felly bydd angen welingtons arnoch. Dewch a ffon hefyd oherwydd mae'r "cerrig yn slip". Os bydd amser gennym wedyn cerddwn ran o lwybr newydd tua'r Esgair, cyn dychwelid i'r Railwe.

**Llyfrgell Deithiol** - Bob 4 wythnos, fl gael ffôn 01267 224830

**Gwasanaeth Swyddfa Bost** - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

## Clwb Gwili 60+

Dathlywyd Dydd Gŵyl Dewi ar yr 22ain o Chwefror eleni. Diolchodd y Cadeirydd Peter Giles i Glyn a Maureen Ifans am yr holl waith o wneud a dosbarthu'r cawl bendigedig oedd at ddant pawb. Diolchwyd hefyd i bawb am ddod a gwahanol ddanteithion i ddilyn. Y siaradwr oedd Arwyn Thomas, wnaeth swyno'r gynulleidfa gyda'i destun "Hanes y rheilffordd drwy Fronwydd dros gyfnod o ganrif". Cynigwyd pleidlais o ddiolch gan Ralph Carpenter. Bu'n brynhawn hwylus gyda bron 90 aelod yn bresennol.

Daw Claire Greenhouse atom ar ddydd Llun 18fed o Ebrill o fudiad y Groes Goch. Bydd ein haelodau yn derbyn cwrs "Cymorth Cyntaf bob dydd", wedi ei ariannu gan y Clwb., ac mae 20 eisoes wedi cynnig eu henwau iddo. Trefnwyd 4 taith gogyfer a'r Gwanwyn a'r Haf. Daw'r cyntaf a'r 20fed o Ebrill ar gamlas Abertawe gyda the i ddilyn yng Ngwesty'r Ddraig. Ma' lawn bws da ni'n barod!

Yna ar ddydd Mercher 20fed o Mai awn i Gastell Picton a chinio bwffe wedyn yn y bwyty yno. Ar y 13eg o Fehefin daw ymweliad a Chanolfan Gwlypdir Llanelli ac yna ymlaen i westy'r Bridge Inn Llangennech am swper. Diwrnod llawn wedyn i ymweld â Chanolfan Treftadaeth y Rhondda ar y 17eg o Awst gan ddychwelid am bryd i Dafarn y Deri, Llanedi am fwyd y noson honno. Oherwydd poblogrwydd y Twrci a'r Tinsel y llynedd trefnodd Glyn Ifans un arall am eleni, i Westy'r Langham yn Eastbourne rhwng 21ain a'r 25ain o Dachwedd ar gost o £285. Mae yna rhai llefydd ar ôl, ond disgwyllir i'r blaendal o £50 yn y pythefnos nesaf. Rhaid bod yn aelod o Glwb Gwili os ydych am ddod; cysylltwch â Glyn 01267236280.

Ar y 21 0 Fawrth siaradodd Mr Alf Williams ar Bererindodau i Abatai'r Sistersiaid yng Nghymru. Er bod ein haelodaeth bellach yn croesi'r 130 mae yna groeso o hyd i aelodau newydd am £5 y flwyddyn. Cynhelir ein cyfarfodydd ar y 4dd Llun o bob mis am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd am 2 awr.

## Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo

Mae tymor y Gynghrair yn dod i ben, a chydag un gêm ar ôl rydym yn y bedwerydd safle gyda'r gobaith o orffen yn drydydd. Ond hefyd i ddod mae Noson Ffeinals y Clwb a dwy gêm erbyn Bronwydd (i ffrwd ag adre) am Gwpan Coffa Roy Bowen. Ar ôl hynny dyna derfyn y tymor a bydd hoe fach dros yr Haf nes ailgydio ar Nos Iau1af o Fedi..

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn y Neuadd Goffa ar Nos Lun 29ain o Awst am wyth o'r gloch. Croeso i bawb!

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Fel y gwyddoch fwy na thebyg, hyd yn hyn nid yw Dwr Cymru o hyd wedi gosod y biben garthffosiaeth drwy'r Cae Chwarae, i gyfeiriad Teras Gwili . Gwnaeth yr holl dywydd gwlyb dros y gaeaf ohirio pethau. Cynted fydd Dwr Cymru wedi cwpla byddwn yn gosod y pysf pêl droed newydd, y meinciau a'r Bin Sbwriel.

Dyddiad ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yw Dydd Mawrth 26ain o Ebrill am wyth o'r gloch yn y Neuadd Goffa.

## Rheilffordd Nosweithian Arbennig

Bydd Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win i'r am £25 y cnpw. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.

## Gwrandewch ar yr adar!

Mawrth, Ebrill a Mai, dyna'r misoedd gorau i fwyhau can yr adar bach. Mewn gwirionedd mor bell ac y mae'n adar cynefinol dyma'r unig gyfnod i'w clywed, oherwydd erbyn Mehefin maent wedi paro, canfod nyth ac yn prysur fwydo eu cywion. Erbyn hynny'r gwenoliaid fydd y mwyaf stwrllyd drwy'r haf nes daw drycin yr hydref. Prin iawn erbyn hyn yw'r wennol ddu.

Dechrau'n gynnar fydd ein hadar preswyl, oherwydd unwaith daw gwres Ebrill bydd ein hymwelwyr yn cyrraedd i gystadlu am safleoedd nythu. A wyddoch chi fod nythai y rhan fwyaf o'n hadar bach sy'n canu yn nythu ar lefel isel, mewn drysni a thrash ac nid mewn coed uchel? Dyma gartrefi naturiol i'r dryw, y fronfraith, y deryn du, y titw a'r robin, mewn hen glawdd neu gornel ardd anniben.

Y cyntaf i'r felin mor gynnar ag Ionawr yw'r Titw Mawr gyda'i alwad unigryw *ti-tsier ti-tsier ti-tsier*, i'w ddilyn gan *tsier-err-err-err*, y Titw Tomos Las o'r cloddiau. Ers dechrau Chwefror mae'r fronfraith wedi bod yn cannu ei chalon mas o ganghennau'r onnen ar waelod yr ardd. Os yw'r gan yn hir uchel a chymhleth, ac yn ailadrodd, gellwch fentro taw'r fronfraith sydd wrthi. Os clywch ganiad melys yn cyrraedd uchder eich pen, yna Llwyd y Gwrych sydd yno. Edrycha fel rhyw robin bychan llwydglas ei olwg gyda choesau bach pinc a phig finiog. Mae sŵn bwrlwm drwm o gyfeiriad y coed yn datgelu fod y Gnocell Fraith Fwyaf yn brysur. Er hefyd yn brysur tawel yw'r Aderyn Du adeg y gwanwyn cynnar, ond erbyn Mis Mai mae'n choedid i bawb ei bod yn dywydd eistedd allan.

Aderyn hynod o liwgar yw'r Asgell Fraith adeg magwraeth a'i chan yr un mor lliwgar hefyd. Ond yr uchaf ei chloch o'r holl adar yw'r lleiaf mewn maint, daw can y dryw yn ffrwydrol i'n clustiau.

Erbyn Ebrill mae'r ymwelwyr cynta' wedi llwyddo i oresgyn y Sahara ac osgoi drylliau'r ddynoliaeth sy'n awchu eu saethu. Un o'r cynta' yw'r Siff-Saff, sy'n swnio'n gywir fel ei enw - plinc-plonc i'r mis wedyn. Y nesaf yw fy ffefrynn, Telor yr Helyg, sy'n mynd yn brin;; yn hoff o'r coed helyg a chanu o'r onnen dal pan fydd y dail yn egino. Mae'r gan yn sgwd ddisgynnol o sŵn arian - sŵn y gwanwyn fel y dywedodd ffrind wrtho'i! Daw uchafbwynt corws y gwanwyn wrth i'r Telor Penddu gyrraedd. Wrth i'r dail agor prin yw'r cyfleoedd i weld yr adar bychan llwydwyrdd yma, ond gallwch fentro os yw'r holl adar eraill mewn côr, mae'r telor penddu yn opera yn ei hun.

Mwynhewch tra bo'r cyfle! Ann

## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Phillip Jones yw'r clerc a gellir cysylltu ag e' ar 01267 253512 neu [<clerc@llanpumsaint.org.uk>](mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk). Gall y trigolion lleol fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor.

Trafodir yn bennaf drwy'r Gymraeg ond mae cyfleoesterau cyfieithu llawn ar gael. Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar y 3dd o Fai i'w ddilyn gan gyfarfod arferol y Cyngor. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu nifer o welliannau diogelwch. Cwtogir cyflymdra i 20 milltir yr awr dros y ffurdd canlynol -

- O waelod rhwng Cwpers, heibio Rhydygaer, yr Eglwys a'r Ysgol i waelod rhwng Llandre
  - O'r Eglwys, lawr heibio Teras Gwili, a dros y bont hyd Bodran Felin
  - o'r bont ger Post Bach, heibio'r Siop a'r Ficerdy hyd yr hewl fawr.
- Hefyd bwriedir cwtogi cyflymdra ger Gwarcwm i 40 milltir. Cyhoeddir eu bwriadau ac os nad oes gwrthwynebiad bwriedir cychwyn ar y gwaith cyn gynted â phosib.

## Ceisiadau Cynlluniau Diweddaraf

W/33248 - Safle Dwr gwastraff Llanpumsaint - Codi caban

W/33248 – Codi sied dractor mewn cae.

## **Band eang Cyflym Iawn- Y diweddaraf**

Ar ddydd Llun 21ain o Fawrth es i gyfarfod a alwyd gan Angela Burns yn Saundersfoot er mwyn i Ed Hunt Cyfarwyddwr Band Cyflym Iawn Cymru ateb cwestiynau, un sydd yn byw yng Nghymru ac eto heb dderbyn y gwasanaeth cyflym. Eglurodd fel a ganlyn --  
Ariannu'r cynllun gan y Senedd a'r Undeb Ewropeaidd.

Derbyniodd BT contract i osod band eang Ffibr i 95% o ardaloedd Cymru  
Diffiniad Mr Hunt o fand eang Cyflym Iawn yw 30 MB.

Mae'r Rhaglen i orffen yn ystod Haf 2017.

Gwelwch islaw am fanylion sut i gael band eang Cyflym Iawn i ardaloedd diarffordd neu anymarferol. <http://www.superfast-openreach.co.uk/rural-broadband/>

Dyma a ofynnais i Mr Hunt ai atebion yntau i mi -

Cwestiwn -- Pam rhoi blaenoriaeth i ardaloedd sydd eisoes yn derbyn gwasanaeth derbyniol dros lefydd fel ni sydd yn rhedeg ar gyn lleied â 0.5 MB?

Ateb -- Oherwydd bod yr arian o Ewrop wedi cyrraedd chwe mis yn hwyr, golygodd hynny fod y rhannau rhwyddaf wedi eu gwneud gynta', er mwyn cadw at yr amserlen.

Cwestiwn -- Oherwydd bod Llanpumsaint a'r rhan uchaf o Fronwydd yn rhan o ateb cymhleth a oes yna bosiblwydd fydd ein hamserlen yn newid eto?

Ateb -- Yr ydych o hyd o fewn cyrraedd o Ffibr i'r Adeilad (FTTP) ac mae hynny'n llawer mwy cymhleth na Ffibr i'r Cabinet (FTTC) oherwydd yr angen am rwydwaith mewnol newydd, megis polion a weiren newydd o'r gyfnewidfa i'r adeilad. Daethom o hyd i anawsterau fel dwythell gaeedig yn eich ardal, ond deil y nod i orffen ddiwedd Haf neu Fis Medi. Ni allwn ar hyn o bryd roi dyddiad pendant na chwaeth pa adeiladau fydd yn gynwysedig. Rydym wrthi yn ceisio gwella'r wybodaeth am hynt a helynt FTTP ar ein gwefan, er mae prin yw'r atebion ar hyn o bryd.

Byddaf yn dal ati i geisio'r diweddaraf neu newid i'n disgwyliadau ac yn rhoi gwybod i Lais y Llan.

## **Police**

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi derbyn sawl adroddiad am gerbydau amheus yn ein hardal heddlu. Byddwch yn wyliadwrus, ac os yw cerbyd yn ymweld â'ch eiddo chi ac rydych chi'n teimlo bod yr ymwelliad yn amheus, galwch ni ar 101 gan ddyfynnu rhif cofrestru'r cerbydau. Byddwn ni'n dilyn yr adroddiad hwn ac yn gweithredu'n briodol.

Byddwn ni'n cynnal patrolau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned yn yr ardal dros y misoedd nesaf. Mae'r prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer cynnwys aelodau o'r cyhoedd a fydd yn gweithredu dyfais mesur cyflymder yng nghwmni SCCH ac yn casglu'r wybodaeth a fydd yn cael ei hanfon at ein swyddfa docynnau ganolog. Bydd hyn yn arwain at geidwad y cerbyd yn derbyn llythyr rhybudd a fydd yn ei hysbysu am ei drosedd ac yn sôn wrtho y bydd yn derbyn 4 pwynt os fydd yn cael ei ddal eto. Rydyn ni'n chwilio am wifoddolwyr i ymuno â ni yn Llanpumsaint gan fod yr ardal hon yn un o 3 sydd wedi'u dewis ar gyfer treialu'r cynllun yn Sir Gaerfyrddin.

Yn olaf, ar ôl imi bron â dioddef damwain fy hun, hoffwn atgoffa beicwyr, cerddwyr, rhedwyr, marchogion ac unrhyw un arall sy'n defnyddio'r briffordd eich bod chi'n llai ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas os ydych chi'n gwrando ar gerddoriaeth neu'n gwneud galwadau ffôn ac yn defnyddio clustffonau. Medrwch roi'ch hun ac eraill mewn perygl o ddioddef damwain. Weithiau mae'r damweiniau hyn yn rhai mân, ond mae rhai'n ddifrifol ac yn newid bywydau. Byddwch yn ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas pan fyddwch allan ac arhoswch yn ddiogel.

Martin Dickenson 8046, Swyddog Cymorth Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys, Gorsaf Yr Heddlu 101 Ex 25344 / 25343 [martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk)

## **Band eang cyflym iawn ddim ar gael eto**

Os nad yw band eang cyflym iawn ar gael i chi eto, yna mae'n bosibl y gall cynllun Mynediad i Fand Eang Cymru eich helpu i gysylltu â'r gwasanaeth.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi grantiau i ariannu (neu dalu'n rhannol) am gostau gosod band eang newydd mewn cartrefi a busnesau yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys costau rhentu misol.

Trwy'r cynllun hwn, mae'n rhaid i gyflymder lawrlwytho'r cysylltiad newydd fod ddwy waith yn gynt na'r hen gysylltiad lawrlwytho e.e. mae'n rhaid i gyflymder y cysylltiad presennol gynyddu o 10Mbps i 20Mbps o leiaf.

Mae'r grant yn dibynnu ar gyflymder y cysylltiad newydd:

- £400 ar gyfer 10Mbps neu uwch
- £800 ar gyfer 30Mbps neu uwch

Ymgeisio am y grant:

1. A ydych chi'n gymwys – gallwch ddod o hyd i'r manylion yn y ddogfen 'Meini prawf cymhwysedd ac amodau'r' cynllun yn yr adran lawrlwytho dogfennau.
2. Ystyriwch yn ofalus pa gyflymder y mae eich cartref neu fusnes ei angen heddiw a thros y 12 mis nesaf.
3. Dewiswch Ddarparwr Gwasanaeth Rhyngrywd (ISP) – chwiliwch am restr o gyflenwyr ISP all ddarparu'r gwasanaeth i chi.
4. Llenwch y ffurflen gais – lawrlwythwch y ffurflen gais sydd ar gael yn yr adran lawrlwytho dogfennau..
5. Anfonwch eich cais at Lywodraeth Cymru i gael ei chymeradwyo gyda'r dyfynbris gan yr ISP yr ydych wedi'i ddewis.
6. Os caiff eich cais ei gymeradwyo, cewch lythyr cynnig. Yna, mae'n rhaid i chi drefnu i'ch offer band eang cyflym iawn gael ei osod gan eich ISP. Unwaith y bydd wedi cael ei osod ac mae'r cyflymder newydd wedi'i gadarnhau, bydd y cyllid yn cael ei ryddhau ar eich rhan.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ffoniwch 0300 025 8893/8887 neu e-bostiwch [broadband@wales.gsi.gov.uk](mailto:broadband@wales.gsi.gov.uk).

## **Clinig Gofal Traed**

Fe'i gynhelir nawr ar ddydd Mercher, felly bydd y clinig nesaf ar Ebrill 6 2016 rhwng hanner dydd a 5.00 o'r gloch. Ar ôl hyn, y clinig nesaf wedyn bydd ar Mai 18, Mehefin 29

## **Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint**

Yn y cyfarfod blynnyddol ym Mis Chwefror etholwyd Cadeirydd ac Ysgrifennydd newydd a daeth nifer o aelodau eto i ymuno. Wedyn cawsom gyfarfod ar y safle i gymynu tipyn, daeth yr hen ac ifanc a chyda cymorth yr ymborth cyflawnwyd lawer. Trefnir arwerthiant planhigion i Fis Mai gan dyfwr proffesiynol. Bydd e'n arddangos basgedi crog, a chynhwysydd planhigol i'r patio. Estynnir croeso arbennig i aelodau newydd, ac os oes gennych blanhigion sbâr dewch a nhw i drwco neu roi'n anrheg i rywun. Cadarnheir y dyddiad cyn hir a bydd y manylion yn ymddangos ar hysbysfwrdd y Neuadd

## **Capel Nebo**

Ebrill	3ydd	Mr Peter Harries- 10:30y.b.
	10fed	Dr Dai Lloyd- 10:30y.b.
	17eg	Mr Wyn Maskell- 10:30y.b
Mai	1af Parch	John Morgan 10:30y.b.
	22ain	Mr Dylan Jones- 2:00y.p
Mehefin	5ed	Parch Emrys Evans- 10:30 y.b.
	19	Parch Roger Thomas- 2:00 y.p
	26ain	Parch Andrew Lenny- 2:00y.p

Mi fyddwn hefyd yn rhan o ddigwyddiad cymunedol y pentref ac yn gyfrifol am y ras hwyiaid ar y 7fed o Fai.

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

## **Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint**

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

## **Capel Ffynnonhenri**

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoeedd Ebrill a Mai 2016

Ebrill 3 2016	Cymundeb am 3.00 o'r gloch	Parch Desmond Davies
Ebrill 17 2016	Gwasanaeth am 2.00 o'r gloch	Parch Carl Williams
Mai 8 2016	Gwasanaeth am 2.00 o'r gloch	Mr Arwel Evans
Mai 22 2016	Cymundeb am 3.00 o'r gloch	Parch Roger Thomas

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

## **Ffwrdd a hi a bant a'r cart!**

Nos Sadwrn y chweched o Chwefror oedd yn y Neuadd, ar noson codi arian cyntaf i Gurad Calon, a'r lle'n orlawn a phob tocyn wedi diflanni. Wedi i Mike Poston gadarnhau pwysigrwydd y fenter aeth band y Swing Boyz, dan arweiniad Barry Wade, ati i chwarae cerddoriaeth y pedwardegau. Cafwyd amser difyr wrth ddawnsio'r hen ffyrdd a gwnaeth Colin Bowen gyfraniad cerddorol hefyd.

Pryd dau gwrs o fwyd cartre' blasus am bris rhesymol i ddilyn at ddant pawb. Gydag elw'r Bar a'r raffl casglwyd swm anhygoel o £877 tuag at **Adfywiwr** cynta' Llanpumsaint. Diolch y Ann Petitt am drefnu'r coginio a hefyd i Sandy Maher, Kay Bowen a Carolyn Smethurst am eu cyfraniadau. Trefnydd y raffl oedd Sarah Moore, diolch! Rhaid peidio anghofio'r rhai fu'n addurno'r Neuadd ac yn golchi lan ar y diwedd!

**Codi Arian Hawdd** Os ydych yn siopa ar y We yna gallwch helpi i godi arian i'r ysgol drwy gofrestri ar [www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA) neu gysylltu ag Emma Brown

## Andrew Penbontbren

Oherwydd taw Emrys Pwmps oedd ei dad, Andrew Pwmps fyddde fe i bawb hefyd. Yn ei gyfraniad gwreiddiol iawn i lyfr Canmlwyddiant a Hanner Ysgol Llanpumsaint, ceir hanes ei blentyndod ganddo –

*“Wedi cau siop Gwili Vale a'r Farmers co-op, aeth fy rhieni, Emrys a Nansi, ati i agor Gorsaf Betrol yn Penbontbren, ac ychwanegu at yr elw drwy werthi wahanol fnydydd. Bydde'r lle'n llenwi a phlant ar y ffordd gatre o'r ysgol, pedair ceiniog am boteled fach o Towliai pop a cheiniog 'nol am botel wag. A dyna lle bydde pawb yn casglu ar brynhawn dydd Sul, marce pedwar i bump o'r gloch, i gal pop a crisps. Nansi yn y siop, Emrys yn godro yn y boudy bach, ac Eirwyn Green a Huw yn poeni'n nhad drwy ollwng dŵr o'r cafan, a drygioni tebyb - lot o sbri diniwed!”*

Plentyndod hapus iawn, a gellir gweld gwreiddioldeb Andrew yn disgleirio yn y darn uchod . Gwreiddioldeb oedd i'w weld yn llwyddo mewn amryw o feisydd yn ystod ei yrfa rhy fyr o lawer. Erbyn hyn mae llawer iawn yn gweithio i Larymau Dyfed, ond faint ohonoch a Wyr mae Andrew Pwmps oedd y cyntaf i'w gyflogi gan y cwmni - cyn Chris Hewitt hyd yn oed! Yno dysgodd ei grefft fel trydanwr. Dysgodd ei grefft fel drymiwr hefyd, a ffurfiwyd band eiconig y cyfnod, sef Eryr Wen, i deithio yn y fan o Lanpumsaint led led Cymru i gynnal Gig ar ôl Gig. Yna ymunodd a'r enwog ffotograffydd Ken Davies fel dyn sain, a buont yn cydweithio gyda Alun Lenny dros yr wythdegau, yn dilyn storiâu mawr y dydd, o protest Byncser Caerfyrddin i'r Cwotas Llath a Streic y Glowyr. Medd Alun amdano. *“Roedd ei waith camera i raglenni fel Cefn Gwlad gyda'r gorau dwi 'di weld erioed mewn chwarter canrif fel gohebydd teledu. Roedd ganddo hygad naturiol am shot oedd yn wahanol.”*

Benthycwyd lori o'r cwmni teiars, ac aeth Wil A.T.S a Wyn Pentan ati i symud celfi Andrew i'r gogledd, pan ymunodd a chwmni Barcud. Llifogydd mawr dros y wlad a'r ffordd wrth bont Machynlleth dan ddŵr, ond llwyddodd y lori fynd drwyddo. O'dd dwr ynddi drannoeth hefyd, yn ol Wyn, wedi iddynt ddychwelid i Bensarn. Bu'r symud yn dyngedfennol am reswm arall, cyfarfu Andrew a Llio, a chyn hir fe briododd y ddau ym Mhortmeirion. Wedyn dychwelid i ardal Llandeilo i godi teulu o bedwar, sef Brieg, Gronw, Efa ac Iago.

Fel dyn camera teithiodd dros y byd gan gynnwys ymweliad ag Ynysoedd Malvinas. Daeth dau fachgen o Lanpumsaint yn enwau cyfarwydd ar y credits Cefn Gwlad, Andrew'r dyn camera a'i gyfaill Huw Davies, y dyn sain. Tra bydd yna ail darlledu bydd yr enwau yn dal i ymddangos ar y sgrin. Diddorol nodi fan hyn i fab talentog arall gael ei godi ar aelwyd Penbontbren, genhedlaeth ynghynt. Dafydd Rhys Jones (Dai Penbontbren - mab Ifor a Maggie) oedd hwnnw, aeth yn ddarllithydd yng Ngholeg Normal Bangor ac yn Gynghorwr gweithgar i Blaid Cymru ar Gyngor Gwynedd.

Bu Nansi, Mam Andrew yn wyneb cyfarwydd y tu ol i gownter Siop y Pentan am dros ugain mlynedd, cyn i'r gelyn cancer ei chipio hithau yn 2007. Er hynny pan wnaeth Wyn ymddeol yn 2009 prynwyd y busnes gan Andrew a Llio i barhau'r cysylltiad teuluol. Erys yr hiraeth am y wen ddireidus a'r winc fach gyfeillgar wnaeth Pwmps yn ffrind i bawb. Arwyn 2016

# Village Voice April 2016

Copy Date for next Edition 25<sup>th</sup> May

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange  
[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to  
[info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

## What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 1 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

April 6 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall

April 9 Saturday 10.00 Coffee Morning in aid of Defibrillator Memorial Hall

April 9 Saturday 2.00 Walk around Henllan

April 12 – 19 Bags 2 Collection Llanpumsaint School

April 13 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

April 14 Thursday 7.30 Llanpumsaint Choir Llandysul Parish Church Tickets £10

April 18 Monday 1.30 60+ Club Everyday First Aid Bronwydd Hall

April 19 Tuesday 7.00 Curry & Quiz £5 per head Railway Inn

April 20 Wednesday 60+ Club trip to Swansea Canal

April 23 Saturday 2.00 Garden Open in aid of Defibrillator Bodran Felin

April 23 – May 1 Clean Coast Week, see Keep Wales Tidy

April 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

April 24 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

April 26 Tuesday 8.00 AGM Welfare and Recreation Association, Memorial Hall

May 3 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

May 7 Saturday 10.00 Walk from Bodran Felin to Allt Garedig

May 7 Saturday 3.30 Fun Day Playing Field Llanpumsaint (Subject to Field availability)

May 8 Sunday West Wales Dowsers Field Trip

May 11 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

May 17 Tuesday 7.00 Curry & Quiz £5 per head Railway Inn

May 18 Wednesday 60+ Club trip to Picton Castle

May 18 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall

May 21 Saturday 7.00 Vale of Towy Choir Concert Memorial Hall Tickets £6.50

May 22 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

May 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

June 4 Saturday 11.00 Walk Carreg Cennen to Tregrif Woods

June 7 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

June 9 Thursday 6.30 Quiz in Carmarthen Town Clubhouse for Cerebra

June 15 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book  
June 15 Wednesday 8.00 AGM Memorial Hall Trustees  
June 21 Tuesday 6.00 Walk to the Five Pools, Llanpumsaint  
June 21 Tuesday 7.00 Curry & Quiz £5 per head Railway Inn  
June 25 Saturday 2.30 Bronwydd Annual Fete. More details in next Village Voice  
June 25 Saturday Sine Nomine Concert in Church – more details next Village Voice  
June 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd  
June 29 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall  
July 2 Saturday ‘This River’ band Memorial Hall – more details next Village Voice  
August 29 Monday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall  
September 1 Thursday Bowls Season Starts Memorial Hall

***Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall***  
*To book phone Arwel Nicholas on 281365*

**Ysgol Llanpumsaint PTA**

The Christmas Fair raised well over £1000 for the school, including donation from Barclays Bank. This is a really well supported event, and wouldn't happen without the wonderful support of the community and local businesses. Thank you ever so much to everyone who supported us. The Fair is held on the first Saturday in December each year, anyone interested in having a stall on the 4th December please get in touch with Emma Brown, Lynsey Jones or Moishe Merry.

We also would like to thank the parents for supporting the Lasagne Night on the 8th March in the Railway Inn; it successfully raised £180 including the raffle. Thank you to Jane and her staff for making it such a lovely evening.

For anyone looking at spring cleaning over the coming weeks, the school are holding a Bags 2 School collection on Tuesday 19th April @ 9.00. They pay 40p a Kilo to the PTA which soon adds up. You can use your own black bin bags, and can include paired shoes, hats, belts, handbags, soft toys, and hats, as well as clothing. Items that can't be included are bedding, curtains, towels, linen and bric a brac. Bags can be dropped off after between the 12th and 19th April at the school.

Over the Easter Holidays, the parents and pupils will be having another work day on the school building, around the garden, replacing the old shed, and decorating the school fence. If anyone has a surplus of bedding plants, they would be very gratefully received. Also - if anyone has any unwanted items that need ‘regifting’, the school are looking for raffle prizes for future events.

For further information contact Moishe Merry, PTA Secretary on 01267 253668 or [themerrys@live.com](mailto:themerrys@live.com)

2ND JULY - Band concert – ‘This River’ is an indies/rock band based in Swansea. They travel all over and play in local clubs and pubs. This River played in Cafe Lorenzo, Carmarthen back in October and played varied but knowledgeable music, covering many decades! For a sneak preview before they come to Llanpumsaint in July, look for Idge Logan (he's the main singer) on You Tube and you'll be able to see their talent for yourselves!! More details Lynsey Jones.

## **Llanpumsaint Allotment Association**

The Association's AGM in February was well attended, during which a new Chairperson and Secretary were elected and several new members were welcomed. A site tidy up day subsequently took place on 13th March which was also very well attended by young and not so young, and who, through a lot of hard work (boosted by plenty of refreshments), achieved a great improvement to the area.

A plant sale is now being arranged for early May, which will be held by a professional grower who will also give a demonstration of hanging basket/patio container planting. Non members are very welcome to attend and anyone with spare plants can bring them for swapping (or donation to others if you're feeling generous!). The date of this event will be confirmed shortly and details placed on the Memorial Hall notice board.

## **Llanpumsaint Heartbeat – Raising Funds to get Defibrillators for Llanpumsaint**

We are please to announce that we now have raised nearly £1500 so we can now plan to install the first defibrillator for the Village. But we are planning to get more – so that areas like Nebo and Ffynnonhenry will also have a defibrillator, so please keep giving.

£877 was raised at the Swing Boyz evening, and on 29th February at the Ivy Bush hotel, Carmarthen Rotary Club generously donated a cheque for £500 to Llanpumsaint Heartbeat. Many thanks to Rotarian Sandy Mather for bringing our group to the attention of Carmarthen Rotary Club. We have also received a number of private donations.

Anyone who would like to become secretary of our committee please contact Mike Poston 253725. We are also looking for new members to join our small committee to assist in this fundraising project. In the meantime we will continue to raise funds locally within the community.

